ct WEEK
dathlu cludiant cymunedol

**Mwy na Bws Mini**

**13–17 Hydref 2025**

# Templed ar gyfer Datganiadau i'r Wasg

SUT I DDEFNYDDIO'R TEMPLED HWN

Mae Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol 2025 yn gyfle perffaith i godi proffil Trafnidiaeth Gymunedol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y gwaith rydych yn ei wneud i gymaint o bobl a chymunedau.

Bydd CTA yn hwb i'n gwaith allgymorth â'r cyfryngau a newyddiadurwyr yn y cyfnod yn arwain at ac yn ystod Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol 2025 i sicrhau sylw yn y wasg. Ein nod fydd rhannu hanes mudiad Trafnidiaeth Gymunedol ffyniannus ledled y DU ac ennill rhagor o gefnogwyr i'n sector.

Ac mi hoffem i chi fod yn rhan o hyn hefyd! Mae'r templed hwn ar gyfer datganiadau i'r wasg yn enghraifft i'ch helpu i gael sylw yn y wasg leol, ranbarthol, neu hyd yn oed genedlaethol yn ystod Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol 2025. Mi allwch ei addasu ar gyfer eich anghenion a'ch gwasanaethau eich hun.

Meddyliwch beth fydd eich 'bachyn' – Beth sy'n newydd, gwahanol neu bwysig? Sut allwch chi ennyn diddordeb newyddiadurwyr? Pam ddylai'r cyfryngau roi sylw i'ch stori?

Mi all fod i ddathlu lansio gwasanaeth neu brosiect cyffrous, newydd sbon. Gallai fod i rannu newyddion am weithgarwch hwyliog neu ddigwyddiad diddorol y byddwch yn ei drefnu ar gyfer eich cymuned yn ystod yr wythnos. Neu gall nodi ymweliad gan eich AS, MSP, Aelod o Senedd Cymru, MLA, neu Gynghorydd lleol i weld eich gwaith. Mae gennym dempled ar gyfer llythyr i gysylltu â hwythau hefyd yma.

Mi fydd angen gwneud y canlynol:

- Meddyliwch am eich 'bachyn'
- Ei wneud yn gryno! Rhannwch at eich neges ar unwaith a'i mynegi'n glir
- Ystyried yr hyn rydych am ei gyflawni – mwy o ymwybyddiaeth yn lleol, mwy o ddefnyddwyr, denu mwy o wirfoddolwyr?
- Tynnu lluniau a'u rhannu pan fyddwch yn anfon eich datganiad i'r wasg
- Chwilio am newyddiadurwyr lleol a rhanbarthol, cyfryngau, neu ddesgiau newyddion i gysylltu â hwy
- Dathlu Trafnidiaeth Gymunedol
- Cysylltu eich stori ag Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol 2025

Mi allwch hefyd ddarllen enghraifft o ddatganiad i'r wasg gan CTA yma i gael ysbrydoliaeth neu syniad ar sut i lunio un eich hun.



**Datganiad i'r Wasg**

**MANYLION CYSWLLT:**

[LOGO]
[SEFYDLIAD]
[CYFEIRIAD E-BOST]

**DYDDIAD RHYDDHAU:**
I'W RYDDHAU AR UNWAITH

**DOLENNI:**
[EICH GWEFAN]
[DOLEN(NI) CYSYLLTIEDIG]

**[TEITL/PENNAWD]**

**[Is-deitl/Is-bennawd]**

Mae elusen trafnidiaeth/grŵp cymunedol/menter gymdeithasol [DILEER FEL SY'N BRIODOL] wedi eu canmol gan **[MLA/AS/MSP LLEOL]** [ENW] am eu gwaith eithriadol yn y gymuned, yn dilyn ymweliad yn ystod **Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol 2025** (13-17 Hydref). Y thema ar gyfer dathliadau eleni yw **"Mwy na Bws Mini"**, sy'n dangos bod gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn hanfodol i fywydau lleol.

Yn ystod yr ymweliad, manteisiodd **[MLA/AS/MSP LLEOL]** [ENW] ar y cyfle i gwrdd â staff a gwirfoddolwyr, a ddisgrifiodd sut mae eu gwasanaethau'n fwy na chludiant, gan helpu unigolion i fod yn annibynnol, wedi'u cysylltu a'u grymuso.

Mae **[SEFYDLIAD]** yn [CRYNODEB O GEFNDIR/CENHADAETH/GWASANAETHAU] yn darparu gwasanaethau hanfodol sy'n fwy na chludiant yn unig—maent yn allweddol i bobl o bob rhan o'r gymuned leol. O helpu pobl hŷn, anabl, a grwpiau agored i niwed, i gael mynediad at ofal iechyd, addysg, a chyflogaeth, mae **[SEFYDLIAD]** yn chwarae rôl holl bwysig i wneud yn siŵr nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl.

Mae **[MLA/AS/MSP LLEOL]** [ENW] wedi datgan eu hedmygedd o'r gwaith sy'n cael ei wneud, gan ychwanegu:
"Roedd yn agoriad llygad i ymweld â **[SEFYDLIAD]** a chael gweld y gwaith gwerthfawr maent yn ei wneud ddydd ar ôl dydd ac mae hynny'n llawer mwy na gyrru bws mini – maent yn rhoi cyfle i bobl i fyw'n annibynnol, i gyfrannu at eu cymunedau, ac i ddefnyddio gwasanaethau hanfodol. Mae'n amlwg bod **[SEFYDLIAD]** yn rhan hanfodol o'n cymuned leol."

**Mae** "**Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol 2025** yn gyfle perffaith i gydnabod a dathlu'r rôl sy'n cael ei chwarae gan y gwasanaethau hyn. Rwyf yn falch o gefnogi tîm **[SEFYDLIAD]** ac i bwyso am barhad y gefnogaeth iddynt i sicrhau eu bod yn gallu parhau i wneud y gwaith pwysig hwn am flynyddoedd eto."

Meddai **[ENW] [SWYDD] [SEFYDLIAD]**:
"Roeddem wrth ein bodd yn croesawu **[ENW]** [MLA/AS/MSP LLEOL] i **[SEFYDLIAD]** ar gyfer yr ymweliad pwysig hwn yn ystod **Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol 2025**. Roedd yn gyfle ardderchog



i ddangos ein bod yn llawer mwy na gwasanaeth bws mini. Rydym yn rhan o fywyd y gymuned, gan helpu unigolion i gadw mewn cysylltiad, i fyw’n annibynnol, ac i fod yn rhan o gymdeithas.”

**DIWEDD**

## NODYN I OLYGYDDION:

Mae Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol 2025 yn wythnos o ddathliadau sy’n para o 13 hyd 17 Hydref 2025. Mae thema eleni "Mwy na Bws Mini," yn dangos sut mae gwasanaethau Trafnidiaeth Gymunedol yn cynnig llawer mwy na chludiant – maent yn hanfodol i helpu pobl i barhau’n annibynnol, i gadw mewn cysylltiad, ac yn rhan o’u cymunedau lleol. Mae’n gyfle i dynnu sylw at gyfraniadau rhyfeddol y gwasanaethau hyn at fywydau miliynau o bobl ledled y DU.

